Rhif Ymchwil Gymdeithasol:
61/2018
Dyddiad cyhoeddi:
22/11/2018

# Gwerthuso Gweithredu Cynnar y Cynnig Gofal Plant i Gymru: Darpariaeth Gwyliau

This document is also available in English.

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Gymraeg.

© Hawlfraint y Goron Digidol
ISBN Digidol 978-1-78964-428-9

Gwerthusiad o Weithredu'r Cynnig Gofal Plant i Gymru yn Gynnar: Darpariaeth Gwyliau

Awdur: Alison Glover, Stuart Harries, Jennifer Lane and Sioned Lewis, Arad Research ac NatCen Social Research

Adroddiad Ymchwil Llawn: Glover, A., Harries, S., Lane, J., Lewis, S., *Gwerthusiad o Weithredu'r Cynnig Gofal Plant i Gymru yn Gynnar.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru, GSR report number 61/2018.
Ar gael yn: https://gov.wales/statistics-and-research/evaluation-childcare-offer-wales/?lang=cy

Y safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn yw rheini'r ymchwilydd ac nid o reidrwydd Llywodraeth Cymru

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:
Hannah Davies
Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru, Parc Cathays
Caerdydd, CF10 3NQ

E-bost: Hannah.Davies018@gov.cymru

## Tabl cynnwys

Rhestr o dablau ........ 4
Geirfa ........ 5
1. Rhagarweiniad ........ 6
2. Methodoleg ........ 10
3. Canfyddiadau ........ 11
4. Casgliadau ........ 22
5. Argymhellion ........ 24

**Rhestr o dablau**

Tabl 2.1. Gwaith maes yn llywio'r gwerthusiad o'r Cynnig Gofal Plant i Gymru ...................10

**Geirfa**

| **Acronym/ Gair allweddol** | **Diffiniad** |
|---|---|
| Cynnig Gofal Plant | 30 awr yr wythnos o addysg gynnar a gofal plant a ariennir gan y llywodraeth ar gyfer rhieni sy'n gweithio ac sydd â phlant tair a phedair oed, am hyd at 48 wythnos o'r flwyddyn. |
| AGC | Arolygiaeth Gofal Cymru – rheoleiddiwr annibynnol gofal cymdeithasol a gofal plant yng Nghymru. |
| EILA | Awdurdod Lleol sy'n Weithredwr Cynnar. |
| Cyfnod Sylfaen | Y cwricwlwm datblygiadol ar gyfer pob plentyn rhwng tair a saith oed yng Nghymru. |
| FPN | Darpariaeth Feithrin y Cyfnod Sylfaen – o leiaf 10 awr yr wythnos o addysg gynnar a ariennir ar gyfer plant 3 a 4 oed yn ystod y tymor, gan ddechrau yn y tymor ar ôl i blentyn droi'n 3 oed. Cyfeirir at y ddarpariaeth hon weithiau fel hawl i addysg gynnar ac addysg gynnar a ariennir. |

# 1. Rhagarweiniad

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn un o dri phapur ychwanegol a gynhyrchwyd ochr yn ochr â'r prif adroddiad gwerthuso o weithredu cynnar (12 mis cyntaf) y Cynnig Gofal Plant yng Nghymru, a gynhaliwyd gan gwmni ymchwil Arad a NatCen Social Research rhwng Gorffennaf 2017 a Hydref 2018.

1.2 Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar elfen ddarpariaeth gwyliau'r Cynnig Gofal Plant. Mae'n trafod y galw am ofal plant yn ystod cyfnodau gwyliau'r ysgol ac yn ystyried a yw'r cyflenwad gofal plant yn ystod y cyfnodau hyn yn ddigonol i ateb y galw. Hefyd mae'n archwilio sut y cytunwyd trefniadau darpariaeth gwyliau rhwng darparwyr gofal plant a rhieni, yn ogystal â'r ffyrdd mae gwybodaeth yn ymwneud â hawl y Cynnig Gofal Plant yn ystod gwyliau ysgol wedi'i chyfathrebu i rieni.

1.3 Mae'r adroddiad hwn wedi'i lywio gan ymchwil ddesg, cyfweliadau â sefydliadau rhanddeiliaid, darparwyr gofal plant a rhieni yn ogystal â data a gynhyrchwyd gan arolwg y rhieni a gynhaliwyd fel rhan o'r gwerthusiad hwn.

1.4 Mae gweddill yr adran hon yn darparu cyd-destun cefndirol, gan gynnwys trosolwg o'r Cynnig Gofal Plant ar draws y saith awdurdod lleol sy'n gweithredwyr cynnar (EILAs), gan ganolbwyntio ar y gwahaniaeth rhwng y Cynnig yn ystod amseroedd tymor ysgol a chyfnodau gwyliau ysgol.

### Y Cynnig Gofal Plant

1.5 Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddarparu cyfanswm o 30 awr yr wythnos o addysg gynnar a gofal plant a ariennir gan y llywodraeth yn ystod y tymor a 30 awr yr wythnos o ofal plant am naw o'r 13 wythnos o wyliau ysgol. Mae'r Cynnig Gofal Plant yn targedu plant tair a phedair oed lle mae eu rhieni yn ennill lleiafswm wythnosol sy'n gyfwerth i, neu sy'n fwy nag 16 awr ar yr isafswm cyflog cenedlaethol neu'r cyflog byw cenedlaethol.

1.6 Mae canlyniadau arfaethedig y Cynnig yn cynnwys:

- Bydd gan rieni fwy o ddewisiadau cyflogaeth
- Byddgan rieni incwm cynyddol i'w wario
- Bydd rhieni'n gallu gwneud dewis gwybodus ynghylch ddefnyddio gofal plant ffurfiol
- Bydd y sector gofal plant yn tyfu mewn ymateb i alw a derbyniad cynyddol o ofal plant ffurfiol.

1.7 Mae Atodiad A yn darparu manylion pellach ar yr allbynnau a'r canlyniadau ar gyfer y Cynnig.

1.8 Ers Medi 2017 mae'r Cynnig Gofal Plant wedi bod ar gael yn y saith awdurdod lleol sy'n gweithredwyr cynnar (EILAs), sy'n cynnwys y cyfan, neu ran o, y saith awdurdod lleol dilynol;

- Ynys Môn a Gwynedd (gweithio ar y cyd)
- Blaenau Gwent
- Caerffili
- Sir Fflint
- Rhondda Cynon Taf
- Abertawe.

1.9 Dechreuodd ceisiadau am ariannu lleoedd gofal plant o dan y Cynnig ym mis Mehefin 2017, er mwyn i blant gymryd lleoedd o fis Medi 2017. Y nifer o blant a gyrchodd y gofal plant a ariennir yn ystod y flwyddyn gyntaf ar gyfer y saith EILA oedd 4,101.[1] Cynhwyswyd awdurdod lleol Blaenau Gwent i gyd o'r cychwyn cyntaf. I ddechrau, roedd y Cynnig ar gael mewn rhannau o'r awdurdodau eraill, ag ardaloedd ychwanegol yn cael eu hychwanegu er mwyn ehangu argaeledd y Cynnig i fwy o blant ym mis Tachwedd 2017 a mis Ionawr 2018.

**Cyd-destun ar gyfer yr adroddiad**

1.10 Roedd Llywodraeth Cymru yn dymuno archwilio a oedd y broses o weithredu Cynnig Gofal Plant yng Nghymru yn gynnar yn creu galw sylweddol am ofal plant yn

[1] Data monitro Llywodraeth Cymru.

ystod gwyliau'r ysgol ac a fyddai'r galw hwn yn fwy na'r cyflenwad gofal plant sydd ar gael yn ystod y cyfnod hwn.

1.11 Yn ystod amser tymor ysgol, mae gan blant sy'n cael eu cefnogi gan y Cynnig hawl i o leiaf 10 awr o FPN a hyd at 20 awr o ofal plant a ariennir. Mae'r cyfuniad o'r ddarpariaeth FPN a gofal plant a ariennir, yn cyfrif am y 30 awr o addysg a gofal plant a ariennir a gynhwysir yn y Cynnig. Mae'r gymhareb o FPN i oriau gofal plant a ariennir sydd ar gael i blant cymwys yn ddibynnol ar nifer yr oriau FPN a ddarperir eisoes ym mhob ardal. Mae oriau'r ddarpariaeth FPN sydd ar gael yn amrywio rhwng awdurdodau lleol (ac mewn rhai achosion rhwng darparwyr FPN o fewn yr un awdurdod lleol). Oherwydd hynny, mae nifer yr oriau gofal plant sydd ar gael i gyfrif am y 30 awr o'r Cynnig yn amrywio hefyd ar draws ac o fewn awdurdodau lleol.

1.12 Yn ystod naw o'r 13 wythnos o wyliau ysgol bob blwyddyn, pan nad oes darpariaeth FPN, mae 30 awr o'r cynnig gofal plant yn cynnwys gofal plant a ariennir yn gyfan gwbl, a allai o bosibl gynyddu'r galw am ofal plant yn ystod gwyliau'r ysgol. Roedd gallu sector gofal plant yng Nghymru i ddiwallu'r galw cynyddol hwn am ofal plant yn ystod gwyliau'r ysgol yn destun pryder i lawer yn ystod y cyfnod gweithredu cynnar.

1.13 Mewn achosion lle mae darpariaeth FPN a gofal plant yn cael ei darparu o fewn yr un lleoliad, efallai y bydd yr oriau a dreulir gan y plentyn yn y lleoliad yn ystod y tymor, o'i gymharu ag amser gwyliau ysgol yr un fath. Oherwydd hynny, dylai'r ddarpariaeth o oriau FPN i ofal plant fod yn ddi-dor. Fodd bynnag, efallai na fydd yr un peth yn wir mewn achosion lle mae oriau FPN yn cael eu darparu mewn un lleoliad ac oriau gofal plant yn cael eu darparu mewn lleoliad arall. Yn yr achosion hyn, byddai'r ddarpariaeth o oriau gofal plant yn ystod gwyliau'r ysgol yn cynyddu cyfanswm yr oriau a gymerir gan bob plentyn yn y lleoliad gofal plant. Yn ogystal â hyn, rhagwelwyd y byddai nifer o blant, nad oeddent wedi cymryd lleoedd mewn lleoliadau gofal plant ffurfiol yn ystod gwyliau'r ysgol o'r blaen, â chymorth y Cynnig, bellach yn gallu gwneud hynny. Mynegwyd pryderon gan EILAs a swyddogion Llywodraeth Cymru yn benodol, y byddai'r cynnydd hwn mewn oriau gofal plant a gymerid yn ystod gwyliau'r ysgol yn fwy na gallu darparwyr i ddarparu'r lleoedd gofal plant sy'n ofynnol.

1.14 Hefyd codwyd rhai pryderon gan EILAs a swyddogion Llywodraeth Cymru na allai rhieni sy'n cyrchu gofal plant a gefnogir gan y Cynnig gan ddarparwyr sy'n gweithredu yn ystod amser tymor ysgol yn unig, gyrchu gofal plant ffurfiol yn ystod gwyliau'r ysgol. Yn ei dro gallai hyn danseilio rhai o nodau cyflogadwyedd allweddol y Cynnig. O bosibl gallai'r rhieni hyn droi at ofal plant anffurfiol yn ystod gwyliau'r ysgol neu chwilio am ddarpariaeth gofal plant ar gyfer gwyliau ysgol yn unig gan ddarparwyr ffurfiol eraill. Pe byddai'r rhieni hyn yn cyrchu gofal plant ffurfiol ar gyfer gwyliau ysgol yn unig gan ddarparwyr eraill, gallai hyn roi pwysau pellach eto ar y gallu ar gyfer darpariaeth gofal plant yn ystod cyfnod gwyliau'r ysgol.

1.15 Mae'r materion a phryderon a nodir uchod yn ffurfio ffocws allweddol y papur thematig hwn. Mae hefyd yn archwilio sut y cytunir ar drefniadau darpariaeth gwyliau a'r dulliau mae hawl gwyliau ysgol yn y Cynnig Gofal Plant yn cael eu cyfathrebu.

## 2. Methodoleg

2.1 Ymgymerwyd ag ymagwedd ddulliau cymysg i gasglu adborth ynghylch y Cynnig Gofal Plant yn ystod gwyliau ysgol. Archwiliwyd y data monitro a gweinyddol a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru gan bob EILA ac ymgymerwyd â'r ystod o waith maes a amlinellir yn Nhabl 2.1.

**Tabl** Error! No text of specified style in document.**.1. Gwaith maes yn llywio'r gwerthusiad o'r Cynnig Gofal Plant i Gymru**

| **Cyfranogwr** | **Dull** | **Nifer o ymatebwyr** | **Pryd** |
|---|---|---|---|
| Swyddogion Llywodraeth Cymru | Cyfweliadau ffôn ac wyneb yn wyneb | 11 | Trwy gydol y cyfnod gwerthuso |
| Pob cynrychiolydd tîm Cynnig Gofal Plant EILA | Cyfweliadau wyneb yn wyneb | 1-4 o staff ym mhob EILA; 18 cyfweliad | Hydref 2017; Yn gynnar yn 2018 a Medi 2018 |
| Sefydliadau rhanddeiliaid allweddol* | Cyfweliadau ffôn ac wyneb yn wyneb | 14 | Gorffennaf i Fedi 2018 |
| Darparwyr Gofal Plant yn Cyfranogi | Cyfweliadau ffôn | 150 | Mawrth i Fedi 2018 |
| Rhieni'n cymryd rhan | Arolwg ar-lein | 555 | Mai 2018 |
| Rhieni'n cymryd rhan | Cyfweliadau ffôn | 36 | Awst/Medi 2018 |
| Rhieni heb gymryd rhan | Cyfweliadau ffôn | 21 | Awst/Medi 2018 |

Sylwer: gellir canfod rhagor o wybodaeth am y fethodoleg yn adran fethodoleg y prif adroddiad gwerthuso.

*Mae Atodiad B yn cynnwys y rhestr o randdeiliaid a gyfwelwyd.

# 3. Canfyddiadau

## Y galw am ddarpariaeth gwyliau

3.1 Mae'r canfyddiadau gwerthuso ar gyfer gweithredu'r Cynnig Gofal Plant yn gynnar yn awgrymu nad yw'r galw am ofal plant wedi bod yn fwy na'r cyflenwad yn ystod gwyliau ysgol, fel yr oedd rhai yn ei ofni ar y dechrau. Ymddengys mai'r prif reswm am hyn yw bod llai o rieni, nag a ragwelwyd ar y cychwyn, wedi cyrchu gofal plant a gefnogir gan y Cynnig yn ystod gwyliau ysgol.

3.2 Canfu'r arolwg o rieni a gynhaliwyd ym Mai 2018 fel rhan o'r gwerthusiad, fod ychydig dros hanner (59 y cant) o'r rhieni a oedd wedi ymateb ac a gyrchodd y Cynnig yn defnyddio gofal plant yn ystod gwyliau ysgol ar y pryd â 10 y cant arall yn nodi eu bod yn bwriadu gwneud hynny.

3.3 Roedd y galw am ofal plant yn ystod gwyliau ysgol ymysg ymatebwyr i'r arolwg yn amrywio yn ôl y math o ddarpariaeth a ddefnyddiwyd. Roedd y rhan fwyaf o rieni (87 y cant) a oedd yn defnyddio meithrinfeydd dydd yn cyrchu gofal plant gan eu darparwr yn ystod gwyliaur ysgol; roedd y rhan fwyaf o rieni a oedd yn defnyddio gwarchodwyr plant (86 y cant) yn defnyddio eu darparwr yn ystod gwyliau ysgol hefyd. Nododd cyfran is o rieni a arolygwyd (21 y cant) a oedd yn cymryd gofal plant gan ddarparwyr eraill, gan gynnwys cylchoedd chwarae a lleoliadau gofal dydd sesiynol eraill, eu bod yn cyrchu darpariaeth gofal plant ffurfiol yn ystod gwyliau ysgol.

3.4 O ymatebwyr yr arolwg a oedd yn cyrchu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn ystod amser tymor ysgol, dim ond 11 y cant a ddywedodd eu bod yn cyrchu'r un ddarpariaeth yn ystod gwyliau ysgol. Nododd 76 y cant nad oedd y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg roeddent yn ei chael yn ystod tymor yr ysgol ar gael yn ystod gwyliau'r ysgol. Cynhwysir trafodaeth bellach ar fynediad i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn ystod gwyliau ysgol ym mharagraff 3.20.

3.5 Gellir disgwyl yr amrywio hwn ar draws y gwahanol ddarparwyr gofal plant gan fod meithrinfeydd dydd a gwarchodwyr plant mewn sefyllfa well i ddarparu gofal plant y tu allan i oriau tymor o'u cymharu â chylchoedd chwarae neu ddarparwyr gofal plant sesiynol sydd fel arfer yn gweithredu'n agosach at amseroedd tymor ysgol.

3.6 Yn ôl darparwyr a gyfwelwyd, daeth y galw am ddarpariaeth yn ystod gwyliau ysgol o gwsmeriaid presennol yn bennaf. Dim ond ychydig o ddarparwyr a gyfwelwyd (8 o 150) a ddywedodd eu bod yn derbyn ymholiadau gan rieni newydd a oedd am gyrchu'r Cynnig gyda hwy yn ystod gwyliau ysgol yn unig. O'r darparwyr hyn, nododd ychydig nad oeddent yn gallu bodloni'r ceisiadau hyn. Roedd hyn yn bennaf oherwydd capasiti yn hytrach nag amharodrwydd i ddarparu darpariaeth yn ystod gwyliau ysgol yn unig.

3.7 Esboniodd darparwyr fod rhai rhieni presennol eisiau cynyddu eu gofal plant yn ystod gwyliau ysgol, ac roedd eraill am gyrchu llai o oriau.

> "O ran y galw, nid oedd yn fwy na'n gallu gan fod rhai wedi cymryd mwy o oriau yn ystod gwyliau ysgol tra bod eraill wedi cymryd llai neu ddim." (Darparwr gofal dydd llawn)

3.8 O'r 31 o rieni a gyfwelwyd a nododd a oeddent yn cyrchu llai, mwy neu'r un nifer o oriau gofal plant yn ystod gwyliau ysgol o'u cymharu ag amser tymor, nododd 16 eu bod yn cyrchu llai o oriau yn ystod gwyliau ysgol, roedd saith yn cyrchu mwy ac roedd wyth yn cyrchu'r un nifer o oriau ag yr oeddent yn ystod amser tymor.

3.9 Mae'r canfyddiadau sy'n deillio o'r arolwg a chyfweliadau â rhieni yn awgrymu felly yn gyffredinol nad yw cyflwyniad y Cynnig Gofal Plant yng Nghymru wedi dylanwadu newid sylweddol yn y trefniadau darpariaeth gofal plant gwyliau'r haf yn ystod y cyfnod gweithredu cynnar. O ganlyniad, nid yw'r galw am ofal plant ffurfiol y tu allan i'r tymor ysgol, hyd yn hyn, wedi cynyddu'n sydyn fel y'i rhagwelwyd gan rai ar y cychwyn.

3.10 Roedd rhieni a oedd am gynyddu eu horiau o ddarpariaeth gofal plant yn ystod gwyliau ysgol yn dueddol o fod y rhai yr oedd eu plant yn cyrchu elfennau FPN a gofal plant y Cynnig, yn ystod y tymor, mewn dau leoliad gwahanol. Byddai'r lleoliad FPN ar gau yn ystod gwyliau ysgol ac felly byddai'r rhieni angen oriau ychwanegol o ofal plant yn ystod y cyfnodau hyn. Fodd bynnag, ymddengys fod y cynnydd hwn yn y galw yn rheoladwy i fwyafrif y darparwyr a gyfwelwyd oherwydd, mewn llawer o achosion, roedd cynnydd yn y galw gan rai rhieni yn aml yn cael ei wrthbwyso gan ostyngiadau yn y galw am ddarpariaeth gwyliau ymhlith eraill.

"Roedd plant y Cynnig Gofal Plant gyda fi am fwy o oriau (30 yn lle 17.5) yn ystod gwyliau'r ysgol oherwydd bod lleoliad Meithrin y Cyfnod Sylfaen ar gau yn ystod yr amseroedd hyn. Fodd bynnag, gwrthbwyswyd hyn gan ddau blentyn arall y mae eu rhieni yn athrawon ac felly nid oes arnynt angen gofal plant yn ystod gwyliau ysgol. Mae plant eraill yn aml yn cael eu gwyliau teuluol yn ystod yr haf, felly fel arfer mae rhai lleoedd yn rhydd. Felly, nid yw sicrhau darpariaeth yn ystod gwyliau yn peri pryder i ni." (Gwarchodwr Plant)

3.11 Rhoddwyd sawl rheswm pam bod y galw am ofal plant ymhlith rhai rhieni yn disgyn yn ystod amseroedd gwyliau ysgol. Mewn rhai achosion, mae rhieni'n gweithio oriau tymor ysgol yn unig (e.e. athrawon ysgol), ac felly nid oes arnynt angen darpariaeth gofal plant yn ystod gwyliau ysgol. Mewn achosion eraill, efallai y bydd gan y plentyn frodyr a chwiorydd hŷn sy'n cyrchu trefniadau eraill ar gyfer gofal plant yn ystod gwyliau ysgol, gan gynnwys gofal plant anffurfiol a/neu gylchoedd chwarae a chwaraeon nad ydynt efallai wedi'u cofrestru â CIW ac felly nid ydynt yn gymwys i dderbyn arian Cynnig Gofal Plant. Yn aml, mae'n well gan rieni'r plant hyn i'w holl blant gyrchu'r un lleoliad gofal plant yn ystod gwyliau ysgol, hyd yn oed os yw hyn yn golygu ildio'r cymorth ariannol gofal plant sydd ar gael drwy'r Cynnig uchod.

**Darpariaeth sydd ar gael**

3.12 Roedd y darparwyr gofal plant a gyfwelwyd yn cynnig ystod amrywiol o ddarpariaeth yn ystod gwyliau ysgol. Roedd rhai darparwyr ar agor yn llawn amser yn ystod gwyliau ysgol, roedd rhai ohonynt ar agor yn rhan-amser, a rhai ar agor yn ystod amser tymor yn unig ac felly roeddent ar gau trwy gydol gwyliau ysgol. Fe nododd nifer fach o ddarparwyr (4 o 150 a gyfwelwyd) a oedd yn cyflenwi darpariaeth yn ystod y tymor yn unig o'r blaen, eu bod wedi ymestyn eu darpariaeth i aros ar agor yn ystod gwyliau ysgol; nododd ychydig eraill hefyd eu bod yn ystyried yr opsiwn o aros ar agor yn ystod gwyliau ysgol am y tro cyntaf. Yn y mwyafrif o achosion, dylanwadwyd ar yr estyniad hwn yn y ddarpariaeth gan ragweld y cynnydd yn y galw yn dilyn cyflwyno'r Cynnig.

3.13 Nododd un darparwr a gyfwelwyd eu bod wedi ymestyn eu darpariaeth i agor yn ystod gwyliau ysgol mewn ymateb uniongyrchol i'r Cynnig, dim ond i ganfod nad oedd y galw am ddarpariaeth y tu allan i amser tymor yno.

3.14 Ar y cyfan, mae'r dystiolaeth yn dangos na fu newid amlwg yn y ddarpariaeth gofal plant yn ystod cyfnod gweithredu'r Cynnig Gofal Plant yn gynnar. Mae hyn er gwaethaf y ffaith bod rhai timau Cynnig EILA yn nodi bod rhai darparwyr gofal plant yn ystod tymor ysgol yn unig o dan yr argraff ar y cychwyn bod darparu gofal plant yn ystod gwyliau ysgol yn rhagofyniad i gael eu cofrestru fel darparwr Cynnig Gofal Plant. Mae hyn yn awgrymu y gallai fod rhywfaint o ddryswch cychwynnol ymhlith nifer fach o ddarparwyr ynghylch pa ddarpariaeth y byddai'n ofynnol iddynt ei chyflenwi fel rhan o'r Cynnig.

**Barn rhieni ar argaeledd darpariaeth gwyliau**

3.15 Roedd y rhan fwyaf o rieni a gyfwelwyd yn ymddangos yn hapus â'r ddarpariaeth gofal plant sydd ar gael yn ystod gwyliau ysgol. Pan ofynnwyd iddynt a oeddent yn gallu cyrchu, trwy'r Cynnig, y math a'r lefel o ofal plant yr oedd arnynt ei angen yn ystod gwyliau ysgol, dywedodd 25 o rieni (o 32 a ymatebodd i'r cwestiwn) eu bod yn gallu. Fodd bynnag, nododd saith rhiant (o 32 a ymatebodd i'r cwestiwn) nad oeddent yn gallu cyrchu'r ddarpariaeth roedd arnynt ei hangen yn ystod gwyliau ysgol.

3.16 Y prif reswm a roddwyd gan y saith rhiant nad oeddent yn gallu cyrchu'r ddarpariaeth gofal plant roedd arnynt nhw ei hangen yn ystod gwyliau ysgol oedd nad oedd eu darparwr gofal plant yn ystod y tymor yn cynnig unrhyw ddarpariaeth yn ystod gwyliau ysgol. Roedd yn rhaid i'r rhieni hyn wneud trefniadau gofal plant amgen gan gynnwys gofal anffurfiol, nad yw wedi bod yn broblem i rai rhieni, ond mae wedi bod yn llai cyfleus i eraill.

> "Yn ystod yr haf roeddwn i'n ei gael yn anodd iawn. Nid oedd darpariaeth y feithrinfa a'r ysgol ar agor yn ystod gwyliau. Roedd rhaid i mi fegio, benthyca a dwyn amser a chymorth gan aelodau'r teulu, a hefyd cymryd gwyliau blynyddol os na allwn i ganfod cymorth. Mae wedi bod yn hunllef logistaidd." (rhiant)

3.17 Nododd rhai rhieni fod ganddynt hawl i 30 awr o FPN yn ystod amser tymor. Oherwydd hynny, ni allai'r Cynnig Gofal Plant ariannu unrhyw ofal plant ychwanegol yn ychwanegol at yr oriau hyn yn ystod y tymor. Fodd bynnag, gallai'r rhieni hyn gael gyrchu'r 30 awr llawn o ofal plant yn ystod gwyliau ysgol. Nododd rhieni a gyfwelwyd a oedd yn y categori hwn, na wnaethon nhw gyrchu unrhyw ofal plant ffurfiol yn ystod amser tymor ysgol, eu bod wedi cael cyrchu darpariaeth gofal plant yn ystod gwyliau ysgol yn unig yn anodd. Roedd hyn yn rhwystrol iddynt oherwydd na allent ddefnyddio'r cymorth ariannol roeddent yn gymwys i'w gael. Dylid nodi, fodd bynnag, bod rhieni a gyfwelwyd a oedd yn y sefyllfa hon yn y lleiafrif ac nid yw'n glir a oedd y rheswm dros yr heriau roeddent yn eu hwynebu'n digwydd oherwydd eu lleoliad daearyddol, ac felly hygyrchedd y ddarpariaeth yn ystod gwyliau ysgol, neu amharodrwydd ymhlith rhai darparwyr i dderbyn cwsmeriaid gofal plant yn ystod gwyliau ysgol yn unig.

3.18 Yn ogystal â phryderon ynghylch rhai darparwyr gofal plant a oedd yn gweithredu yn ystod amseroedd tymor ysgol yn unig, fe wnaeth timau Cynnig EILA a gyfwelwyd godi pryderon cychwynnol ynghylch rhai rhieni a oedd am gyrchu gwahanol grwpiau gweithgareddau megis clybiau chwaraeon yr haf fel modd cael gofal plant yn ystod gwyliau ysgol. Efallai nad yw'r clybiau hyn o reidrwydd wedi eu cofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru (CIW), ac felly ni fyddant yn gymwys i gael arian Cynnig Gofal Plant. Y pryder ymhlith timau Cynnig EILA oedd efallai na fyddai rhai rhieni'n ymwybodol o hyn ar y dechrau. Ar ôl iddynt ddod yn ymwybodol, efallai y byddent am wneud trefniadau amgen munud olaf â gwarchodwr plant cofrestredig gan greu cynnydd sydyn annisgwyl yn y galw. Fodd bynnag, awgrymodd cyfweliadau â rhieni na wireddwyd y pryderon hyn yn ystod y cyfnod gweithredu cynnar.

3.19 Fe wnaeth rhai o'r rhieni a gyfwelwyd fynegi siom nad oedd y grwpiau/clybiau hyn yn gymwys ar gyfer cyllid Cynnig Gofal Plant. Fodd bynnag, ni wnaeth y rhieni hyn chwilio am drefniadau amgen munud olaf â darparwyr gofal plant cofrestredig. Yn hytrach, fe wnaethon nhw naill ai gyrchu a thalu am y grwpiau/clybiau beth bynnag, neu ni wnaethon nhw eu cyrchu a gwneud trefniadau gofal anffurfiol amgen.

> "Y mathau o ofal plant y byddem yn chwilio amdanynt yn ystod gwyliau ysgol fyddai clybiau chwaraeon a phethau tebyg. Ond nid ydynt wedi'u cofrestru ... Mae

gennym dri phlentyn ac mae'r ddau arall yn naw ac wyth mlwydd oed. Felly, ni fyddai'n gwneud synnwyr i roi'r un ifancaf mewn meithrinfa wrth iddyn nhw fynd i glwb chwaraeon. Fe fyddem yn eu hanfon i gyd i'r un lle. "(rhiant)

*Mynediad i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn ystod gwyliau ysgol*

3.20 Fe wnaeth y nifer o blant yn cyrchu gofal plant cyfrwng Cymraeg a ariennir gan y Cynnig ar draws yr holl EILAs ostwng o 59 y cant (o 1327 i 540) rhwng mis Gorffennaf a mis Awst 2018 - gostyngiad sylweddol fwy na'r gostyngiad o 35 y cant (h.y. o 3430 i 2233) a gofnodwyd ar draws yr holl leoliadau gofal plant. Cofnodwyd y gostyngiad mwyaf yn nifer y plant yn cyrchu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y cyfnod hwn yng Ngwynedd ac Ynys Môn, lle cofnodir y gyfran uchaf yn cyrchu darpariaeth cyfrwng Cymraeg hefyd. Gallai'r gostyngiad cymharol uwch yn y nifer yn cyrchu darpariaeth cyfrwng Cymraeg, o'i gymharu â'r holl ddarpariaeth, yn ystod gwyliau ysgol adlewyrchu ffactorau galw sy'n benodol i Wynedd ac Ynys Môn a/neu ffactorau cyflenwi sy'n ymwneud yn bennaf â darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Fodd bynnag, pan gymherir y newid cyfrannol yn y nifer yn cyrchu gofal plant a ariennir gan y Cynnig yn ystod gwyliau ysgol ar draws EILAs eraill, heb gynnwys Gwynedd ac Ynys Môn, y gostyngiad yw 66 y cant ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg o'i gymharu â gostyngiad o 27 y cant yn y nifer yn cyrchu pob math o ddarpariaeth.

3.21 Mae'r lefel is o fynediad i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a ariennir gan y Cynnig yn ystod gwyliau haf yr ysgol yn rhannol yn adlewyrchu'r ffaith bod llawer o'r gofal plant cyfrwng Cymraeg yn cael ei ddarparu trwy cylchoedd meithrin, y rhan fwyaf ohonynt yn gweithredu yn ystod amser tymor yn unig. Fodd bynnag, nid yw'n bosib casglu o'r canfyddiadau hyn bod y gostyngiad yn y mynediad yn cael ei ysgogi yn bennaf gan y cyflenwad neu fod camgymhariad rhwng cyflenwad a galw am ofal plant cyfrwng Cymraeg yn ystod gwyliau ysgol. Mae'n bosib bod y canfyddiadau ond yn adlewyrchu'r modd mae darpariaeth cyfrwng Cymraeg wedi'i chyflenwi a'i chyrchu yn ystod gwyliau ysgol yn draddodiadol. Mae angen ymchwil bellach yn y maes hwn i benderfynu a yw hwn yn rheswm i bryderu neu beidio.

**Effaith mynediad i ofal plant yn ystod gwyliau ysgol**

3.22 O'r rhieni a gyfwelwyd a ddywedodd eu bod yn gallu cyrchu'r ddarpariaeth gofal plant roedd arnynt ei angen yn ystod gwyliau ysgol, esboniodd un bod y ddarpariaeth hon yn ystod y gwyliau wedi eu galluogi i barhau i weithio yn ystod gwyliau ysgol heb gymryd cymaint o'u gwyliau blynyddol fel y byddent wedi'i wneud fel arall, i ofalu am eu plentyn.

> "Heb y 90 awr [o ddarpariaeth gwyliau a gyrchwyd] fyddwn i ddim wedi cael unrhyw wyliau blynyddol ar ôl a byddai wedi bod yn anodd iawn cadw fy swydd. Fydden nhw ddim wedi bod yn fodlon i mi gymryd cymaint o absenoldeb di-dâl. Roedd yn fuddugoliaeth i bawb gan ei fod e'n mwynhau mynd yno i weld ei ffrindiau, a gallwn i barhau i fynd i'r gwaith." (rhiant)

3.23 Esboniodd rhiant arall bod y Cynnig wedi eu galluogi i gyrchu darpariaeth gofal plant yn ystod gwyliau ysgol na fyddent wedi'i wneud fel arall. Ar gyfer y teulu hwn, mae cael mynediad i'r ddarpariaeth gofal plant hwn yn ystod y gwyliau trwy'r Cynnig wedi galluogi'r fam i gynyddu ei horiau gwaith yn ystod gwyliau'r ysgol. Mae hyn wedi cael effaith ariannol gadarnhaol ar y teulu.

> "Cyn y Cynnig, nid oedd gennym unrhyw ddarpariaeth gofal plant yn ystod gwyliau ysgol felly roedd yn rhaid i [y fam] weithio yn ystod y tymor yn unig. Erbyn hyn mae hi wedi ymestyn ei horiau gwaith i gynnwys hanner y gwyliau sydd wedi cynyddu incwm ein teulu o £12K / y flwyddyn." (rhiant)

**Cytundebau darpariaeth gwyliau ysgol**

3.24 Fe ganfu cyfweliadau â thimau cynnig EILA a darparwyr fod amrywiadau yn y trefniadau ar gyfer darpariaeth gwyliau wedi'u cytuno gyda rhieni. Roedd un EILA yn mynnu bod rhieni a darparwyr yn cytuno ar y cyd, ymhell ymlaen llaw, pa wythnosau'r gwyliau ysgol yr hoffent archebu gofal plant a gefnogir trwy'r Cynnig amdanynt (uchafswm o naw wythnos), a'r oriau o fewn yr wythnosau hynny a ddewiswyd yr oeddent yn bwriadu eu cymryd. Roedd yn ofynnol i'r rhieni a'r darparwyr hyn gyflwyno'r oriau hyn pan ddechreuodd y rhieni gyrchu'r Cynnig. Mewn llawer o achosion byddai hyn wedi bod yn fisoedd cyn y ddarpariaeth gofal

plant gwyliau ysgol oedd ei hangen. Er bod hyn wedi annog rhieni i ystyried pa ddarpariaeth wyliau y byddent ei hangen, nid yw'r ymagwedd hon wedi bod heb ei heriau, yn bennaf oherwydd nad yw rhieni bob amser wedi gallu gwneud y penderfyniad hwn ymhell ymlaen llaw. Felly, mewn rhai achosion, roedd y rhieni yn cynnwys rhywfaint o ystyriaeth wrth gefn yn eu cynlluniau trwy archebu mwy o oriau gofal plant nag yr oeddent eu hangen mewn gwirionedd yn ystod gwyliau ysgol.

3.25 Ymddengys fod rhieni eraill hefyd yn archebu rhai oriau o ofal plant a ariennir gan y Cynnig, yn ystod gwyliau ysgol, nad oes arnynt eu hangen o reidrwydd. Dangosir tystiolaeth o hyn gan ddadansoddiad o'r data monitro a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru gan bob EILA. Defnyddiwyd data monitro ar lefel plant unigol am dymor yr haf ar gyfer y dadansoddiad penodol hwn gan fod y cyfnod hwn yn cynnwys uchafswm o saith wythnos ar gyfer darpariaeth gwyliau ysgol. Mae'r dadansoddiad yn dangos bod 224 o oriau o ofal plant ar gyfartaledd wedi'u harchebu yn ystod y cyfnod hwn (cyfnod o 20 wythnos gan gynnwys tymor yr haf a gwyliau ysgol) ond ar gyfartaledd dim ond 191 o'r oriau hyn a gymerwyd.[2] Mae hyn yn awgrymu bod pob rhiant wedi archebu 33 o oriau mwy nag a ddefnyddiwyd yn ystod tymor yr haf ar gyfartaledd.

3.26 Eglurodd nifer fach o ddarparwyr a gyfwelwyd eu bod wedi trefnu ymlaen llaw gyda'u rhieni pa wythnosau o wyliau ysgol y byddent yn hoffi i'w darpariaeth gofal plant gael eu cwmpasu gan yn y Cynnig (cyfanswm o naw wythnos trwy gydol y flwyddyn) a pha wythnosau y byddent yn talu amdanynt eu hunain (cyfanswm o bedair wythnos).

> "Mae'n bwysig gofyn i rieni ymlaen llaw pryd fyddant yn defnyddio eu naw wythnos yn ystod gwyliau ysgol." (Darparwr gofal dydd llawn)

3.27 Mae'n ymddangos bod hyn wedi gweithio'n dda mewn achosion lle mae darparwyr wedi cymryd yr amser i esbonio i rieni y ddarpariaeth Cynnig Gofal Plant mae ganddynt hawl iddi yn ystod gwyliau ysgol ac wedi eu hannog i feddwl ymlaen llaw am y ddarpariaeth gwyliau sydd arnynt ei hangen.

[2] Cyfrifwyd nifer yr oriau cyfartalog ar gyfer y tymor cyfan yn hytrach na chyfartaledd wythnosol, oherwydd mae'r data monitro'n cyflwyno'r oriau a archebir ac a ddefnyddir ar gyfer pob plentyn naill ai fesul mis neu dymor, nid yw data wythnosol ar gael.

**Math o gontract**

3.28 Cytunir ar drefniadau contractiol sy'n ymwneud â thelerau ac amodau'r ddarpariaeth gofal plant rhwng y rhiant a'r darparwr gofal plant. Nododd ychydig o ddarparwyr a gyfwelwyd (pedwar) eu bod yn cynnig contractau blynyddol gyda rhieni sy'n cwmpasu nifer penodol o wythnosau yn ystod y flwyddyn (e.e. 52 wythnos). Felly, yn yr achosion hyn, mae'n ofynnol i rieni dalu am rywfaint o ddarpariaeth gwyliau ta waeth a ydynt yn ei ddefnyddio ai peidio.

> "Mae gwyliau ysgol yn dda iawn i ni gan ein bod yn cael y 30 awr llawn yn lle 20. Mae rhieni'n cytuno i gontract 51 wythnos gyda ni, felly rydym yn codi tâl am wyliau ysgol hyd yn oed os nad ydynt yno. " (Darparwr gofal dydd llawn)

3.29 Nododd rhieni eraill a gefnogir gan y Cynnig, sydd â threfniadau darpariaeth gwyliau mwy hyblyg gyda'u darparwr, y gallant negodi pa wythnosau yn ystod gwyliau ysgol maen nhw am gyrchu darpariaeth a ariennir gan y Cynnig.

3.30 Er gwaethaf yr amrywiadau hyn, mae angen cytuno ar drefniadau darpariaeth gwyliau rhwng rhieni a darparwyr. Fodd bynnag, nododd rhai darparwyr gofal plant a thimau Cynnig EILA a gyfwelwyd nad oedd pob rhiant yn ymwybodol bod angen iddynt gytuno ar drefniadau eu darpariaeth gwyliau gyda'u darparwr. Roedd rhai rhieni'n tybio bod y gofal plant a ddarparwyd yn ystod gwyliau ysgol yn cael ei bennu gan delerau ac amodau'r Cynnig.

3.31 Nododd darparwyr nad oedd rhieni'n sylweddoli'n aml mai dim ond naw wythnos o'r gwyliau ysgol y gellid eu cwmpasu gan y Cynnig, roeddent yn tybio bod y Cynnig yn cwmpasu'r holl wyliau ysgol. Mewn rhai achosion, roedd darparwyr yn gallu cyfathrebu hyn yn llwyddiannus i rieni ymlaen llaw, gan alluogi'r rhieni i ddewis pa wythnosau o'r gwyliau ysgol roedd y Cynnig yn eu cwmpasu a pha wythnosau y byddai angen iddynt wneud trefniadau amgen ar eu cyfer neu dalu am y gofal plant hwn eu hunain.

> "Roeddwn i'n dal i atgoffa rhieni a gwirio, gan esbonio na fyddent yn cael yr wythnosau gwyliau ym mis Awst os oeddent wedi eu defnyddio yn ystod y flwyddyn. Dw i wedi eistedd gyda nhw a phenderfynu pryd roeddent am dalu - ai'r Pasg neu'r haf." (Gwarchodwr Plant)

3.32 Fodd bynnag, mewn achosion eraill, ni chafodd yr hawl gwyliau ysgol ei chyfathrebu'n llwyddiannus i rieni. Roedd hyn yn wir ar gyfer ychydig o rieni ymhlith y rhieni a gyfwelwyd (4 o 36) a esboniodd nad oeddent yn sylweddoli y byddai ganddynt naw wythnos yn unig o'r gwyliau ysgol a gwmpesir gan y Cynnig nes eu bod wedi defnyddio'r naw wythnos hyn a gofynnwyd iddynt talu am y pedair wythnos sy'n weddill o'r gwyliau.

> "Doeddwn i ddim yn sylweddoli beth oedd yr hawl gwyliau hyd nes i mi eu defnyddio i gyd ym mis Gorffennaf a gorfod talu ffioedd llawn ym mis Awst." (Rhiant)

3.33 Problem arall oedd bod y ddarpariaeth gwyliau roedd gan rieni hawl iddi o dan y Cynnig yn amrywio gan ddibynnu ar pryd y dechreuodd y rhieni gyrchu'r Cynnig. Mae hyn, fel yr esboniwyd gan un darparwr isod, wedi achosi cryn dryswch ymysg rhai rhieni:

> "Roedd rhywfaint o ddryswch ar y dechrau gan rieni. Roedd rhaid i mi ei esbonio iddyn nhw. Roedd y lwfans ar gyfer gwyliau'n amrywio yn ôl y dyddiad cychwyn, felly naw wythnos os yn dechrau ym mis Medi, chwe wythnos os yn dechrau ar ôl y Nadolig a thair wythnos os yn dechrau am y Pasg. Nid oedd rhieni wedi sylweddoli hynny." (Darparwr gofal plant sesiynol ac y tu allan i'r ysgol)

3.34 Ar y cyfan, roedd yn ymddangos bod dibyniaeth ar ddarparwyr i roi gwybodaeth i rieni ynghylch y ddarpariaeth gwyliau. Mae'r canfyddiadau gwerthuso'n awgrymu bod y ddibyniaeth hon ar ddarparwyr fel ffynhonnell wybodaeth wedi gweithio'n dda mewn llawer o achosion, ond mae hefyd wedi bod yn ddiffygiol mewn eraill. Er enghraifft, nid oedd gan rieni yr angen i drafod neu gytuno ar ddarpariaeth gwyliau ysgol gyda darparwyr gofal plant amser tymor yn unig nad ydynt yn cynnig darpariaeth gwyliau. Nid oedd rhai o'r rhieni hyn yn ymwybodol bod y Cynnig Gofal Plant yn ariannu 30 awr o ddarpariaeth yn ystod gwyliau ysgol. Mae'r diffyg ymwybyddiaeth hwn o'r ddarpariaeth cymorth gwyliau sydd ar gael, mewn rhai achosion, wedi arwain at rieni naill ai'n ei adael yn rhy hwyr i wneud trefniadau gofal plant ffurfiol eraill ar gyfer gwyliau ysgol neu'n tybio bod angen iddynt drefnu gofal plant arall, yn aml yn anffurfiol, eu hunain.

> "Doeddwn i ddim yn ystyried darparwyr gofal plant eraill ar gyfer gwyliau ysgol. Roeddem yn meddwl y gallem ei wneud rhyngom ni ... Gallwn i fy nghicio fy hun oherwydd nad oeddwn i hyd yn oed yn meddwl amdano [cyrchu darpariaeth gwyliau o dan y Cynnig]"(rhiant)

*3.35* Nid oedd dryswch ynghylch y trefniadau gofal plant a gefnogir gan y Cynnig Gofal Plant wedi'i cyfyngu i rieni. Nododd rhai darparwyr gofal plant eu bod yn ansicr sut i gofnodi'r oriau wedi'u harchebu a'u cymryd yn ystod gwyliau ysgol. Ailadroddwyd hyn gan rai o'r timau Cynnig EILA a gyfwelwyd a nododd fod cadarnhau oriau a chyhoeddi taliadau Cynnig Gofal Plant i rai darparwyr wedi bod yn *'hunllef weinyddol.'* Nododd un tîm Cynnig EILA fod darparwyr yn eu hardal hwy dan yr argraff y gallai unrhyw oriau o ofal plant a archebwyd (ac a dalwyd amdanynt felly) ond heb eu defnyddio yn ystod un cyfnod gwyliau ysgol gael eu symud draw a'u harchebu yn ystod yr un nesaf. Mae'r meysydd camddealltwriaeth hyn yn awgrymu bod angen eglurder pellach wrth hysbysu rhieni a darparwyr gofal plant ynghylch y ddarpariaeth gofal plant sy'n cael ei chefnogi gan y Cynnig Gofal Plant yn ystod gwyliau ysgol.

## 4. Casgliadau

4.1 Mae canfyddiadau gwerthuso ar gyfer gweithredu'r Cynnig Gofal Plant yn gynnar yng Nghymru yn dangos nad yw'r galw am ofal plant a ariennir gan y Cynnig yn ystod gwyliau ysgol wedi bod yn fwy na'r cyflenwad. Mae'n debygol mai'r prif reswm am hyn yw nad yw rhieni wedi newid eu trefniadau gofal plant yn sylweddol o ganlyniad i'r cynnig sy'n cael ei gyflwyno. Mae'n dilyn felly, nad yw darparwyr gofal plant eto wedi gorfod ymateb trwy gynnig mwy o leoedd gofal plant yn ystod gwyliau ysgol.

4.2 Nid yw'r casgliad hwn yn annisgwyl ar hyn o bryd, gan fod llawer o rieni eisoes wedi gwneud eu trefniadau gofal plant, yn aml yn flwyddyn lawn o flaen llaw, cyn iddynt ddod yn ymwybodol eu bod yn gymwys am y Cynnig. Fodd bynnag, wrth i ymwybyddiaeth o'r Cynnig gynyddu, ac mae ei argaeledd yn ehangu i gyrraedd mwy o rieni, mae'n bosibl y bydd trefniadau gofal plant y dyfodol i rieni cymwys yn newid, a allai yn ei dro gynyddu'r galw am ddarpariaeth yn ystod gwyliau ysgol.

4.3 Roedd nifer yr oriau o ofal plant a ariennir gan y Cynnig a archebwyd yn ystod gwyliau haf ysgol ym mis Awst 2018 yn gyson is na'r rhai hynny a archebwyd yn ystod gweddill y flwyddyn ar draws yr holl EILAs. Fodd bynnag, roedd y gostyngiad o ran mynediad i'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a ariennir gan y Cynnig yn fwy na'r hyn a gofnodwyd ar draws pob lleoliad. Mae hyn yn debygol o adlewyrchu'r ffaith bod nifer o gylchoedd meithrin (prif ddarparwyr darpariaeth cyfrwng Cymraeg) yn gweithredu yn ystod amser tymor ysgol yn unig. Fodd bynnag, mae'n bosib bod y canfyddiadau hefyd ond yn adlewyrchu'r modd mae darpariaeth cyfrwng Cymraeg wedi'i chyflenwi a'i chyrchu yn ystod gwyliau ysgol yn draddodiadol.

4.4 Nid yw ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r ddarpariaeth gofal plant sydd ar gael ac a gefnogir gan y Cynnig yn ystod gwyliau ysgol wedi bod yn dryloyw ym mhob achos. Nid oedd rhai rhieni yn ymwybodol bod ganddynt hawl i gael gofal plant a ariennir yn ystod gwyliau ysgol tra nad oedd eraill yn ymwybodol bod y Cynnig yn ariannu naw yn unig o'r 13 wythnos o wyliau ysgol sydd ar gael bob blwyddyn.

4.5 Mae'r ddibyniaeth ar ddarparwyr gofal plant i godi ymwybyddiaeth o'r Cynnig a'r ddarpariaeth gwyliau ysgol wedi gweithio'n dda mewn rhai achosion ond yn llai mewn eraill. Fodd bynnag, mae'r ddibyniaeth hon ar ddarparwyr gofal plant wedi

golygu y gallai rhai rhieni nad ydynt yn defnyddio darparwyr gofal plant yn ystod amser y tymor (e.e. rhieni sy'n cyrchu 30 awr FPN yn ystod amser y tymor) fod yn llai ymwybodol o elfen darpariaeth gwyliau'r Cynnig.

4.6 Ar y cyfan, nid oedd y pryderon cychwynnol ynghylch gormod o alw a chyflenwad annigonol posibl o ddarpariaeth gofal plant yn ystod gwyliau ysgol wedi dod i'r amlwg yn ystod gweithredu'r Cynnig Gofal Plant yn gynnar yng Nghymru. Fodd bynnag, nid yw hyn yn awgrymu y bydd hyn yn parhau i fod yn wir gan fod y Cynnig yn cael ei gyflwyno'n raddol dros y tymor hwy.

## 5. Argymhellion


5.1 Mae ar rieni a darparwyr gofal plant angen rhagor o wybodaeth a chymorth ynghylch y ddarpariaeth gofal plant sydd ar gael yn ystod gwyliau ysgol;

5.2 Dylid ystyried ymagwedd fwy canolog tuag at hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth yn arbennig mewn perthynas â darpariaeth gwyliau ysgol;

5.3 Dylid annog ysgolion ymhellach i hyrwyddo'r Cynnig yn weithredol i rieni, yn arbennig rhieni cymwys a allai fod yn cyrchu FPN yn ystod amser tymor ysgol ond nid elfen ofal plant y Cynnig yn ystod gwyliau ysgol.

5.4 Mae angen ymchwil bellach i'r ddarpariaeth a mynediad i ofal plant cyfrwng Cymraeg yn ystod gwyliau ysgol. Dylai'r ymchwil hwn anelu at benderfynu a yw, ac os felly i ba raddau mae, y gostyngiad yn lefel mynediad gofal plant cyfrwng Cymraeg yn ystod gwyliau ysgol yn adlewyrchu anghenion gofal plant nas diwallwyd a/neu ddiffyg dewis i rieni. Hefyd dylai ystyried sut mae'r Cynnig yn dylanwadu ar unrhyw anghydbwysedd o ran galw a chyflenwad a sut y gellir ei ddefnyddio i fynd i'r afael â hyn.

## Atodiad A: Model Rhesymeg y Cynnig Gofal Plant




**Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, dyddiedig Ebrill 2018.**

**Atodiad B: Sefydliadau yr ymgynghorwyd â nhw yn ystod y gwerthusiad**

Arolygiaeth Gofal Cymru

Plant yng Nghymru

Comisiynydd Plant Cymru

Chwarae Teg

Clybiau Plant Cymru

Blynyddoedd Cynnar Cymru (a elwid yn Gymdeithas Darparwyr Cyn-ysgol Cymru yn flaenorol)

Timau Cynnig Gofal Plant EILA

Estyn

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

Mudiad Meithrin

NDNA (Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd)

PACEY (Cymdeithas Broffesiynol ar gyfer Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar)

Chwarae Cymru

Gofal Cymdeithasol Cymru

Llywodraeth Cymru (swyddogion o'r timau Cynnig Gofal Plant, Cyfnod Sylfaen, Menter a Rhieni Gofal Plant a Chyflogaeth (PaCE)

CLILC (Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru)